

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 10fed o Fawrth 2025 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Trelech.

Cynghorwyr yn bresennol: Andrew Jones (Cadeirydd), Ambrose Lewis, Alyson Harries, Dyfed Davies, Eirian Howells, Linda Dafyddvies, Arwyn Jones, Derrick Harries & Cynghorydd Sir Jean Lewis

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Ann Sillars & John Phillips
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Gwnaeth Andrew Jones gyfleu ei gydymdeimladau gyda Linda Davies wedi iddi cholli ei mam ac i Jean Lewis yn dilyn marwolaeth ei brawd a brawd yng nghyfraith Ambrose Lewis. Dymunodd Andrew gwellhad buan i John Phillips a diolchodd i Derrick Harries am drefnu cinio'r cadeirydd.
3. **Datgan Buddiannau:**
Nododd y clerc datgan budd am y mynediad i Rhoscrugebolion.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 6ed o Ionawr 2025 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5.Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r Cyfreithiwr Newydd parthed yr heol yn Lleine ac roedd wedi cael ei hargymell i wneud ymholiadau cychwynol. Roedd y clerc wedi gwneud hyn, ac yn dilyn trafodaeth, cyfarwyddwyd y clerc i rannu'r gwybodaeth gyda'r Cyfreithiwr.
- Nid oedd arwyddion ffyrdd i arallgyfeirio cerbydau mawr wedi cael eu rhoi ger Bethania gan fod y Cyngor Sir o'r farn na byddent yn effeithiol ond gan fod lori fawr wedi bwrw pont Penybont wythnod ddiwethaf, cytunwyd i ail-ofyn am yr arwyddion. Roedd fideo o'r gwrthdrawiad wedi cael ei ddanfôn ymlaen i'r Cynghorydd Sir Jean Lewis fel tystiolaeth i'r Cyngor Sir.
- Roedd ffens diogelwch dros dro wedi cael ei roi o flaen yr erydiad tir ar rhiw Glaspant, ond oherwydd yr erydiad parhaus, roedd yr arwyddion wedi dymchwel i mewn i'r gwacter. Bydda'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gofyn am ymweliad gan yr Adran Priffyrdd.
- Roedd dau gollyngiad dŵr yng nghaeau Treparcau wedi cael eu atgyweirio. Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gwneud ymweliad gyda'r Adran Priffyrdd i ymchwilio y llifogydd ar yr heol ger Treparcau.

6. Gohebiaeth

- a. Cafodd anfoneb wrth Canolfan Penybont am £170 am logi'r ganolfan am gyfarfodydd ei awdurdodi i'w thalu.
- b. Cafwyd anfoneb wrth Fasthosts am y wefan am dair mlynedd am £71.96 ei awdurdodi i'w ad-dalu i'r clerc.
- c. Roedd aelodaeth Un Llais Cymru yn ddyledus am £136 ac fe'i awdurdodwyd.

ch. Roedd Canolfan Gymunedol Trelech yn ymgeisio am grant i adnewyddu offer y parc ac wedi gofyn am llythyr cefnogol. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr cefnogol.

d. Roedd y clerc wedi cyfarfod gyda Cadwch Cymru'n Daclus ac wedi sicrhau sedd newydd a pump coeden perllan, yn rhad ac am ddim, i parc Trelech .

dd. Nid oedd unrhyw cais Cynllunio wedi dod i law.

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £1045.65.

Cafodd taflen Cyllideb v Gwariant hyd 31/12/24 ei ddosbarthu. Fe'i drafodwyd a'i dderbyniwyd.

Roedd Un Llais Cymru wedi dosbarthu Rheolau Ariannol Newydd. Roedd y clerc wedi eu addasu i fod yn berthnasol i Gyngor Cymuned Trelech. Cafodd y Rheolau Newydd eu mabwysiadu.

8. Unrhyw Fater Arall

- Codwyd pryder am gyflymder lori Gregories a teithiodd trwy pentref Trelech amser gadael yr ysgol ar y 10fed o Fawrth. Gofynwyd i'r clerc gysylltu gyda'r cwmni yn nodi pryder y Cyngorwyr a byddai'r Cyngorydd Sir Jean Lewis yn gofyn i 'Gan Bwyll' fonitro'r cyflymder yn y pentref.
- Roedd Dŵr Cymru wedi cadarnhau fod y mesurydd dŵr a oedd gyferbyn Fferm Velindre yn defnyddio dŵr. Nododd preswylwyr lleol nad oeddent yn berchen iddo ac felly cytunwyd i ofyn dŵr Cymru i darfod y cyflenwad ermwyn atal gwastraff dŵr.
- Nodwyd nad oedd bin baw cŵn yn Trelech ac gan fod bin y Cyngor wedi cael ei dynnu o'r fynedfa i'r ysgol, roedd pobl yn rhoi baw cŵn yn y bin a oedd yn y parc ac roedd yn codi pryderon iechyd a diogelwch i'r plant. Cytunwyd i roi cais am fin baw cŵn ger y llwybr i Clynfelyn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.50yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth yn dilyn derbyn y cyfrifon wedi ei archwilio.